DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan,
## Practis Deintyddol Rhisga

Dyddiad arolygu: 21 Gorffennaf 2016

Dyddiad cyhoeddi: 24 Hydref 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.hiw.org.uk

ISBN Digidol 978-1-4734-7248-8
© Hawlfraint y Goron 2016

## Cynnwys


1. Cyflwyniad .................... 2

2. Cyd-destun .................... 3

3. Crynodeb .................... 4

4. Canfyddiadau .................... 5

   Ansawdd Profiad y Claf .................... 5

   Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .................... 8

   Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .................... 12

5. Y Camau Nesaf .................... 14

6. Methodoleg .................... 15

   Atodiad A .................... 17

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw’r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Gwnaeth AGIC gynnal arolygiad o Bractis Deintyddol Rhisga, yn 3 Commercial Street, Rhisga, Casnewydd, NP11 3AW, ar 21 Gorffennaf 2016.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Practis Deintyddol Rhisga yn bodloni’r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau deintyddol ar ôl rhoi rhybudd, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu’r meysydd canlynol:

- Ansawdd Profiad y Claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr i sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i’n dull o arolygu.
- Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol – Rydym yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau’n darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau’n cael eu rheoli a’u harwain ac a yw’r diwylliant yn cefnogi’r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Rydym ni hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn unol â safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Rhisga yn darparu gwasanaethau i gleifion yn Abercarn, Rhisga, Casnewydd a'r cymoedd o'u hamgylch. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae Practis Deintyddol Rhisga yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol y GIG yn bennaf, ynghyd â nifer fach o wasanaethau deintyddol preifat.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys pedwar deintydd (ac un ohonynt yn ddeintydd blwyddyn sylfaen), un hylenydd, un therapydd, saith nyrs, un rheolwr practis, un derbynnydd ac un glanhawr.

Mae Practis Deintyddol Rhisga yn bractis hyfforddiant sylfaenol[1].

[1] Mae practisau hyfforddiant sylfaenol yn bractisau wedi eu cymeradwyo i gefnogi deintyddion newydd gymhwyso am flwyddyn gyntaf eu hymarfer.

## 3. Crynodeb

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Practis Deintyddol Rhisga yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion, ac mae'r cleifion yn uchel eu parch tuag at y practis.

Gwelsom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd cleifion yn fodlon ar y gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu
- Roedd y tîm staff yn gyfeillgar, yn groesawgar ac yn ymroddedig i ddarparu gofal o safon uchel
- Roedd y cyfleusterau clinigol wedi eu cyfarparu'n dda, ac roeddent i'w gweld yn lân ac yn daclus
- Roedd offerynnau deintyddol yn cael eu glanhau a'u sterileiddio yn y modd priodol
- Roedd trefniadau ar waith i gynnal sganiau pelydr-X yn ddiogel
- Roedd trefniadau sicrhau ansawdd cadarn ar waith i sicrhau y gwneir gwelliannau'n barhaus, gyda'r holl staff yn derbyn cyfrifoldeb a pherchnogaeth ynglŷn â’r rhain.
- Roedd gan staff fynediad at yr hyfforddiant priodol a chymorth proffesiynol da

Rydym yn argymell y gallai'r practis wella’r canlynol:

Ar y cyfan, prin iawn oedd y meysydd a nodwyd gennym i'w gwella. Gwnaethom nodi dau welliant o ran sicrhau bod y wybodaeth ynglŷn â gwneud cwyn yn glir a chofnodi'r gwaith o sgrinio am ganser y geg mewn cofnodion cleifion. Ceir manylion y rhain ym mhrif ran yr adroddiad ac yn y cynllun gwella yn Atodiad A.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Roedd yr adborth a gafwyd trwy ein holiaduron cleifion yn helaeth ac yn gyson gadarnhaol. Roedd gan y practis system ar gyfer casglu adborth gan y cleifion yn rheolaidd, fel modd o asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Roedd eisiau rhywfaint o eglurdeb ynglŷn â gwybodaeth am y gwahanol drefniadau cwyno ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat.**

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion i gael eu barn am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Roedd y practis wedi ymroddi i gasglu cymaint o adborth ag yr oedd modd yn y dull hwn, a chafodd dros 200 o holiaduron eu cwblhau a'u dychwelyd i ni. Roedd staff wedi cynnal archwiliad manwl o'r rhain. Gwnaeth AGIC hefyd adolygu sampl at ddibenion goruchwylio. Dywedodd cleifion eu bod yn derbyn croeso cynnes a'u bod yn fodlon ar y gwasanaethau roeddent yn eu derbyn yn y practis. Roedd sylwadau cleifion ar ddiwrnod yr arolygiad yn cynnwys y canlynol:

> *"Mae'r tîm yn rhoi croeso cynnes imi"*

> *"Dw i'n hapus iawn gyda'r practis, dw i'n cael fy ngweld yn brydlon bob amser"*

> *"Dyw fy ngwraig ddim yn hoffi mynd at y deintydd, ac maen nhw wedi gwneud iddi deimlo'n fwy ymlaciedig a chyfforddus, ac mae hi'n fwy hyderus ers inni ymuno â'r practis".*

<u>Gofal gydag urddas</u>

Gwelsom fod cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch gan y tîm staff. Cawsom fod y staff yn broffesiynol ac yn gyfeillgar, ac fe'u gwelsom yn bod yn gwrtais wrth gleifion dros y ffôn ac wrth ryngweithio wyneb yn wyneb.

Roedd y dderbynfa a'r ystafell aros ar wahân i'w gilydd, a oedd yn rhoi rhywfaint o breifatrwydd i gleifion. Gwelsom fod lle i staff gael trafodaethau â chleifion mewn man preifat, i ffwrdd o gleifion eraill, os oes angen. Golygai hyn ei bod yn bosibl cynnal preifatrwydd a chyfrinachedd. Gwelsom hefyd fod y drysau i'r ystafelloedd triniaeth (lle roedd cleifion yn derbyn gofal ar ddiwrnod ein harolygiad) wedi eu cadw ar gau ar adegau pan oedd cleifion yn yr ystafell.

Gofal amserol

Roedd y practis yn gweithio i sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu mewn modd prydlon. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC wrthym nad oeddent wedi profi unrhyw oedi wrth gael eu gweld gan y deintyddion. Lle y bu oedi roedd cleifion wedi cael eu hysbysu am y rheswm dros hyn a/neu wedi derbyn ymddiheuriad am unrhyw oedi.

Gwelsom arwydd yn ffenestr y practis a oedd yn cynnwys manylion y rhif ffôn cyswllt mewn argyfwng. Hefyd, gwnaethom gadarnhau bod rhifau brys yn cael eu rhoi ar neges peiriant ateb y practis a'r wefan, er mwyn i gleifion gael mynediad at ofal deintyddol brys pan fo'r practis ar gau. Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau.

Cadw’n iach

Gall gwybodaeth hybu iechyd gynorthwyo cleifion i gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u lles eu hunain. Gwelsom fod amrediad eang o wybodaeth hyrwyddo iechyd ar gael yn y dderbynfa. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiaduron wrthym eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth.

Gofal unigol

Roedd gan y practis brosesau ar waith ar gyfer casglu adborth gan gleifion. Roedd system cardiau canmoliaeth/pryderon/cwynion ar waith yn yr ystafell aros. Roedd y practis hefyd yn dosbarthu ei holiaduron cleifion ei hun yn gyfnodol, gan gymryd camau i ymateb i unrhyw adborth ac i wneud gwelliannau lle bo modd.

Ar yr hysbysfwrdd yn y dderbynfa roedd amrediad eang o wybodaeth ddefnyddiol i gleifion, gan gynnwys costau triniaeth, poster ac arno wybodaeth am wneud cwyn a thaflenni hyrwyddo iechyd. Roedd hysbysiad yn ffenest y practis a oedd yn hysbysu cleifion sy'n defnyddio cadair olwyn bod ramp cludadwy ar gael ar gais. Roedd hefyd bwrdd 'cwrdd â'r tîm' gyda ffotograffau staff a'u rhifau Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi eu harddangos arno. Golygai hyn y gall cleifion weld y tîm a oedd yn darparu gofal iddynt. Roedd ffeil o wybodaeth gynhwysfawr a manwl ar gael i gleifion hefyd.

Roedd y practis wedi ystyried sut y gallai sicrhau bod rhywfaint o'r wybodaeth yn fwy hygyrch i gleifion a chanddynt anghenion gwahanol, megis trwy ddarparu gwybodaeth mewn fformatau ac ieithoedd eraill, gan gynnwys y Gymraeg a nifer o ieithoedd eraill.

Gwelsom fod gan y practis weithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer ymdrin â phryderon (cwynion) am driniaethau deintyddol y GIG a thriniaethau deintyddol preifat. Roedd gweithdrefn gwynion y practis yn cael ei harddangos mewn man amlwg yn y practis er mwyn rhoi mynediad hawdd ati, ac roedd ar y wefan hefyd. Canfuom fod rhai gwahaniaethau rhwng y wybodaeth am gwynion yn y practis ac ar y wefan, a gwnaethom argymell bod y practis yn gwirio'r holl ffynonellau i sicrhau cysondeb. Canfuom fod angen gwneud y gwahanol lwybrau ar gyfer uwchgyfeirio cwynion gan gleifion y GIG a chleifion preifat yn fwy eglur, ynghyd â'r amserlenni cysylltiedig ar gyfer cydnabod cwynion ac ymateb iddynt, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Gweithio i Wella (trefniadau'r GIG ar gyfer rheoli cwynion) a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r practis sicrhau bod gwybodaeth am gwynion yn gyson lle bynnag mae'n cael ei harddangos a'i chyhoeddi. Rhaid i'r polisi cwyno gael ei ddiwygio i sicrhau ei fod yn nodi'n eglur y gwahanol amserlenni a llwybrau ar gyfer uwchgyfeirio a rheoli cwynion gan gleifion y GIG a chleifion preifat.***

Gwelsom fod cwynion yn cael eu rheoli mewn modd priodol, a gellid gweld yn eglur bod newidiadau'n cael eu gwneud o ganlyniad i gwynion ac adborth er mwyn gwella profiad y claf yn barhaus.

## *Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol ar gyfer gleifion.**

**Roedd y cyfleusterau clinigol wedi eu cyfarparu'n dda, ac roeddent i'w gweld yn lân ac yn daclus. Roeddem yn fodlon ar y trefniadau a oedd ar waith i ddiogelu cleifion a staff rhag heintiau y gellir eu hosgoi sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei drin, ei storio a'i waredu mewn modd diogel.**

**Roedd cyfarpar dadebru a chyffuriau brys ar gael yn y practis, ac roedd systemau ar waith i helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio.**

**Roedd y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo ac i ddiogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl.**

**Roedd trefniadau ar waith i sicrhau bod offer pelydr-X yn cael eu defnyddio mewn modd diogel.**

**Gwelsom safon o gadw cofnodion a oedd yn rhagorol ar y cyfan, ond gwnaethom un argymhelliad er mwyn gwella cysondeb y gwaith o sganio am ganser y geg a oedd yn cael ei gynnal.**

<u>Gofal diogel</u>

*Cyfleusterau clinigol*

Gwelsom fod y practis wedi cymryd camau i sicrhau bod iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion yn cael eu gwarchod. Roedd y practis yn amlwg yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ac roedd diffoddwyr tân ar gael ac wedi cael eu gwasanaethu’n rheolaidd. Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus a gwastraff nad yw’n beryglus. Gwelsom fod profion dyfeisiadau cludadwy wedi cael eu cynnal i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn cael eu defnyddio’n ddiogel yn y practis.

Roedd polisi iechyd a diogelwch manwl a gwelsom fod asesiadau risg amgylcheddol priodol wedi cael eu cynnal. Gwelsom fod staff wrthi'n cwblhau cynllun rheoli asbestos. Eglurodd staff eu bod yn derbyn cyngor gan unigolion awdurdodedig, a gwnaethant gytuno i barhau i weithio ar y mater hwn i sicrhau bod unrhyw gynlluniau rheoli risg ar waith lle y bo angen.

Gwelsom fod yr holl ystafelloedd triniaeth i'w gweld yn lân, yn daclus ac wedi'u trefnu'n dda. Mewn un ystafell driniaeth gwelsom fod offerynnau endodontig[2] yn cael eu storio heb eu selio mewn dyfais gludo heb waelod, a gall hyn beri risgiau iechyd a diogelwch. Gwnaethom dynnu sylw perchennog y practis at y mater hwn, a roddodd sylw iddo ar unwaith.

Gwnaethom edrych ar yr asesiadau risg ar gyfer Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) a gweld bod dalenni data diogelwch wedi cael eu cadw ar gyfer pob sylwedd, yn ogystal â'r asesiadau risg priodol.

*Rheoli heintiau*

Roeddem yn fodlon ar y trefniadau i ddiogelu staff a chleifion rhag heintiau y gellir eu hosgoi sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn y practis deintyddol hwn. Mae hyn oherwydd inni weld tystiolaeth bod mesurau atal a rheoli heintiau ar waith a oedd yn seiliedig ar ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.[3] Roedd enghreifftiau'n cynnwys y canlynol:

- Ystafell bwrpasol ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol.
- Roedd cyfarpar diogelu personol – megis menig tafladwy, ffedogau a chyfarpar diogelu llygaid – ar gael ac yn cael ei ddefnyddio.
- Sinc penodol i olchi dwylo.
- Roedd y cyfarpar a oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer glanhau a sterileiddio'r offerynnau mewn cyflwr da, yn ôl pob golwg.
- Roedd llyfrau cofnodion ar gyfer gwirio'r offer sterileiddio wedi cael eu cadw, gan gynnwys profi dyddiol.
- Roedd offerynnau'n cael eu storio a'u cludo mewn modd priodol, a dyddiad ar eu pecynnau i ddangos erbyn pryd roedd yn rhaid eu defnyddio.

---

[2] Defnyddir **offerynnau endodontig** i dynnu meinwe bywyn ac i ffurfio a llyfnhau arwynebau mewnol gwreiddiau dant yn ystod triniaeth sianel y gwreiddyn

[3] http://www.wales.nhs.uk/sites3/docopen.cfm?orgid=254&id=232444

Gwelsom dystiolaeth bod archwiliadau rheoli heintiau wedi cael eu cwblhau, yn unol ag argymhellion canllawiau Memorandwm Iechyd Technegol Cymru 01-05. Roedd cofnodion yn cadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi cwblhau'r hyfforddiant dadheintio.

*Cyffuriau brys a chyfarpar dadebru*

Roedd cyfarpar dadebru a chyffuriau brys ar gael yn y practis, ac roedd systemau ar waith i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio pe bai argyfwng claf (llewyg/cwympo). Roedd cyffuriau brys wedi eu trefnu'n arbennig o dda, gyda'r siartiau llif cynnal bywyd cyfatebol i'w defnyddio mewn argyfyngau penodol.

Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod staff wedi derbyn hyfforddiant i ymdrin ag argyfyngau meddygol, a sut i gyflawni dadebru cardio-pwlmonaidd. Roedd y practis wedi penodi nifer o swyddogion cymorth cyntaf yn y tîm a oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant priodol.

*Diogelu*

Gwnaethom ganfod bod y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo ac i ddiogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl.

Roedd gan y practis bolisïau diogelu ar gyfer diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Roedd yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant amddiffyn plant. Roedd yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed, ar wahân i un aelod o staff. Rhoddwyd rheswm boddhaol dros hyn. Gwnaethom hysbysu'r practis y byddai'n rhaid i'r aelod hwn o staff gwblhau'r hyfforddiant hwn, a gwnaethant gytuno i roi sylw i'r mater hwn.

Dywedwyd wrthym fod trefniadau ar waith i staff leisio unrhyw bryderon, a dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo y gallent wneud hyn mewn gwirionedd. Dywedodd staff wrthym fod gwiriadau cyn cyflogaeth yn cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau o staff newydd cyn iddynt ymuno â'r practis, gan gynnwys gwiriadau clirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

*Offer radiograffeg*

Gwelsom fod yr amgylchedd wedi cael ei gynllunio a'i drefnu i sicrhau bod offer ymbelydredd yn cael eu defnyddio'n ddiogel. Gwelsom ddogfennaeth a oedd yn dangos bod y peiriannau pelydr-X wedi cael eu gwasanaethu'n rheolaidd, er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Gwelsom fod yr holl staff a oedd yn cymryd rhan yn y broses o gynnal sganiau radiograffig wedi cwblhau'r

hyfforddiant gofynnol. Canfuom fod y practis yn cwblhau archwiliadau radiograffig at ddibenion sicrhau ansawdd.

Gofal effeithiol

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Gwelsom fod y practis yn cynnal rhai archwiliadau perthnasol, gan gynnwys rheoli heintiau, hylendid dwylo ac ansawdd delweddau radiograffig.

Roedd trefniadau ar waith i staff gynnal archwiliadau adolygu gan gymheiriaid gyda'i gilydd yn rheolaidd.

*Cofnodion cleifion*

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl fach o gofnodion cleifion ar gyfer pob un o'r deintyddion yn y practis. Ar y cyfan gwelsom fod y safon o gadw cofnodion yn rhagorol. Roedd hyn yn cynnwys cofnodi hanes cymdeithasol cleifion, diweddaru hanesion meddygol, cydsyniad a'r opsiynau triniaeth a oedd yn cael eu cynnig. Gwelsom hefyd fod deintyddion yn cofnodi manylion y gwiriadau priodol ar gyfer archwilio'r deintgig (archwiliadau periodontol sylfaenol).

Gwnaethom nodi dau faes i'r practis ystyried ar gyfer eu gwella:

- Er y rhoddwyd sicrwydd inni fod deintyddion yn sgrinio am ganser y geg, nid oedd hyn yn cael ei gofnodi'n eglur bob amser yn y nodiadau. Eglurodd deintyddion nad oeddent yn nodi'n eglur eu bod yn sgrinio am ganser y geg pan oeddent yn cynnal y rhain er mwyn osgoi peri pryder i gleifion. Argymhellir y dylid cofnodi'r broses hon. Gwnaethom hefyd argymell bod staff yn agored wrth gleifion, ac yn rhoi cymaint o wybodaeth iddynt ynglŷn â'r gwiriadau hyn ag y bod modd.

- Mewn un cofnod ni allem fod yn sicr bod y deintydd wedi dilyn canllawiau NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal) o ran ar amserlenni ar gyfer galw cleifion yn ôl i gael sgan pelydr-X. Cytunodd y staff rheoli i roi sylw i'r mater hwn ac i ystyried rhai archwiliadau gan gymheiriaid yn y maes hwn.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis gofnodi sgrinio am ganser y geg yn eglur ac yn gyson, a rhoi gwybodaeth i gleifion am y broses hon pan fydd yn cael ei chynnal.***

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Gwelsom dystiolaeth o reolaeth ac arweinyddiaeth effeithiol yn y practis hwn. Roedd y staff yn ymroddedig a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda. Roedd systemau sicrhau ansawdd cadarn ar waith.**

Roedd perchennog y practis a rheolwr y practis yn gweithio'n agos i sicrhau bod y practis yn cael ei reoli'n effeithiol o ddydd i ddydd.

Gwelsom dîm o staff wrth eu gwaith a oedd yn ymroddedig, yn canolbwyntio ar y claf, yn gymwys ac yn cymryd llawer o ofal yn eu gwaith ac wrth iddynt gyflawni eu rolau. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan reolwr a pherchennog y practis. Dywedodd staff wrthym eu bod yn gallu cael hyfforddiant perthnasol i'w swydd a'u datblygiad proffesiynol parhaus.

Gwelsom fod staff yn cael arfarniadau blynyddol er mwyn rhoi'r cyfle iddynt drafod unrhyw faterion ynglŷn â'r gwaith yn ffurfiol, ac i nodi unrhyw anghenion hyfforddi a datblygiad proffesiynol. Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo y gallent fynd at staff rheoli yn anffurfiol ar unrhyw adeg.

Gwelsom fod systemau ar waith i sicrhau bod unrhyw staff newydd yn derbyn hyfforddiant ymsefydlu, a'u bod yn ymwybodol o bolisïau a gweithdrefnau'r practis.

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi eu cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat, roedd pob deintydd a oedd yn darparu triniaeth breifat wedi'i gofrestru gydag AGIC, ac roedd eu tystysgrifau cofrestru ar gael yn y practis.

Gwelsom gofnodion ynglŷn â statws imiwnedd hepatitis B pob aelod o staff clinigol sy'n gweithio yn y practis. Gwelsom hefyd fod yr holl ddeintyddion a oedd yn gweithio yn y practis ar y pryd wedi cael gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd bob tair blynedd, yn unol â'r rheoliadau. Roedd gan bob aelod o staff drefniadau ar waith ar gyfer yswiriant indemniad priodol.

Roedd y practis hefyd wedi buddsoddi mewn system meddalwedd gydymffurfio. Nod hyn oedd sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ddeintyddol a bod y systemau sicrhau ansawdd a llywodraethu priodol ar waith ac yn cael eu diweddaru. Roedd staff rheoli'n gyfrifol am hyn, ac roeddent hefyd wedi dirprwyo rhai meysydd penodol i aelodau eraill o staff i alluogi'r holl dîm i fod yn gyfrifol am ddiogelwch ac ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Roedd hyn yn golygu bod systemau llywodraethu ar waith a oedd wedi eu trefnu'n dda.

Gwnaethom edrych ar bolisïau a gweithdrefnau'r practis, a gweld tystiolaeth eu bod wedi cael eu hadolygu'n rheolaidd. Roedd y practis yn defnyddio polisïau wedi eu haddasu o'r system meddalwedd gydymffurfio, ac roedd y perchennog wedi adolygu'r mwyafrif o'r polisïau i sicrhau eu bod wedi eu haddasu at ddibenion lleol, a'u bod yn cydymffurfio â chanllawiau sy'n benodol i Gymru. Roedd un neu ddau o'r polisïau'n parhau i ddyfynnu rheoliadau Lloegr, yn benodol y polisi rheoli heintiau a'r polisi storio a gwaredu gwastraff. Cytunodd y perchennog i adolygu'r rhain a gwneud diwygiadau lle bo angen.

Gwelsom fod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd a bod testunau perthnasol yn cael eu trafod, megis adborth gan gleifion a newidiadau i bolisïau. Gwelsom nodiadau ardderchog o'r cyfarfodydd hyn, a gallem weld sut roedd y practis wedi newid o ganlyniad i rannu dysgu. Roedd y tîm hefyd yn defnyddio Deintyddiaeth Matrics Aeddfedrwydd, sy'n ddull datblygu ymarfer ar gyfer yr holl dîm deintyddol. Roedd y practis wedi'i werthuso ei hun trwy ddefnyddio'r dull hwn, ac wedi'i adolygu i sicrhau ei fod yn parhau i ddarparu safon uchel o ofal ar gyfer cleifion.

## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i’r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i’r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai’r cynllun gwella nodi’n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a ganfuwyd ym Mhractis Deintyddol Rhisga, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i’r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i’r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi’u hamseru. Yn gyffredinol, dylai’r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynglŷn â’r materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella’r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai’r practis roi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.


Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o’r broses arolygu ddeintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Mae’r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i’r saith thema weithio gyda’i gilydd. Gyda'i gilydd maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae’r safonau’n allweddol i’r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal**

Ffigur 1




Bydd unrhyw ddeintydd sy’n gweithio yn y practis sydd wedi’i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[4] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[5] Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd

---

[4] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made

[5] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made

Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Trafodaethau â staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Practis Deintyddol Rhisga

## Dyddiad yr arolygiad: 21 Gorffennaf 2016

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| 7 | Rhaid i'r practis sicrhau bod gwybodaeth am gwynion yn gyson lle bynnag mae'n cael ei harddangos a'i chyhoeddi. Rhaid i'r polisi cwyno gael ei ddiwygio i sicrhau ei fod yn nodi'n eglur y gwahanol amserlenni a llwybrau ar gyfer uwchgyfeirio a rheoli cwynion gan gleifion y GIG a chleifion preifat. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 15 ac 16; Safonau Iechyd a Gofal 6.3; Gweithio i Wella 2011 | Adolygwyd y posteri yn yr ystafell aros a thaflenni gwybodaeth/gwefan y practis i egluro'r amserlenni a'r llwybrau ar gyfer uwchgyfeirio cwynion gan gleifion y GIG a chleifion preifat. | Julie Harris | Cwblhawyd 08/09/2016 |
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| 11 | Dylai'r practis gofnodi sgrinio am | Safonau'r | Mewn nodiadau ar gyfer sgrinio am | Elizabeth | Cwblhawyd |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu’r practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | ganser y geg yn eglur ac yn gyson, a rhoi gwybodaeth i gleifion am y broses hon pan fydd yn cael ei chynnal. | Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4; Safonau Iechyd a Gofal 3.5 a 4.2 | ganser y geg, pan geir canfyddiadau negyddol ni chofnodir ’dim byd anarferol wedi'i nodi’ bellach, ond fel y gofynnwyd, nodir bod 'meinwe feddal wedi'i gwirio, wedi'i drafod â'r claf, dim pryderon' – trafodir canfyddiadau â chleifion. | Hancock | 08/09/2016 |
| **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| --- | Dim byd wedi'i nodi | | | | |

## Cynrychiolydd y practis:

**Enw (llythrennau bras):** **Dr Elizabeth Hancock**

**Teitl:** **Prif Ddeintydd**

**Dyddiad:** **12.09.2016**